Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 9 Gorffennaf 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(145)v6

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**Cwestiwn Brys**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn dilyn cyhoeddi adroddiad Jillings?

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: Cymunedau Mwy Diogel i Bawb - Y wybodaeth ddiweddaraf am Bennod 7 o'r Rhaglen Lywodraethu - i'w gyflwyno fel Datganiad Ysgrifenedig**

**4 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Blaenoriaethau Trafnidiaeth - i'w gyflwyno fel Datganiad Ysgrifenedig**

**5 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - Y Wybodaeth Ddiweddaraf am yr Ymateb i'r Adolygiad Strategol o Wasanaethau Ambiwlans Cymru (45 munud)**

**6 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid: Cynnydd o ran Datblygiad Rhaglenni Cyllid Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020 ac adroddiad Llywodraeth Cymru ar yr ymgynghoriad "Cymru a'r UE: Partneriaeth ar gyfer Swyddi a Thwf" (30 munud)**

**7 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Diwygio'r Polisi**

**Amaethyddol Cyffredin (30 munud)**

**8 Cynnig i gymeradwyo egwyddorion cyffredinol y Bil Sector Amaethyddol (Cymru) (60 munud)**

NDM5289 Alun Davies (Blaenau Gwent)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.102:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Sector Amaethyddol (Cymru).

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu wrth fethiant Llywodraeth Cymru i ddilyn y weithdrefn Bil Cyhoeddus lawn ar gyfer y Bil o ystyried y cyfle a gafodd i wneud hynny, a fyddai wedi cynnwys;

a) pwyllgor yn craffu'n fanwl ar y Bil; a

b) cyfle i gael adroddiad pwyllgor manwl am y Bil.

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod y Bil Brys wedi'i ddwyn gerbron y Cynulliad cyn bod ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ei hun wedi cau, a chyn bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael i'w hystyried.

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu y byddai'r Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu isafswm cyflog heb gyfeirio'r mater at banel annibynnol o gwbl.

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi y byddai panel cynghori a fyddai'n cael ei sefydlu o dan y Bil o dan ddisgresiwn Gweinidogion Cymru, a fyddai'n rheoli:

a) cyfansoddiad a thrafodion y panel;

b) penodi aelodau i'r panel;

c) pwerau cyffredinol y panel, a

d) ychwanegu, dileu neu ddiwygio swyddogaethau'r panel.

**Gwelliant 5 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi:

a) bod dibenion allweddol y Bil yn cynnwys swyddogaethau pennu cyflogau, a

b) nad yw cyfraith cyflogaeth wedi'i rhestru o dan Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Dogfennau Ategol**
Bil Sector Amaethyddol (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Datganiad y Llywydd am Gymhwysedd Deddfwriaethol: Bil Sector Amaethyddiaeth (Cymru)
Crynodeb o faterion sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol
Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol at y Gweinodog Cyfoeth Naturiol a Bwyd (9 Gorffennaf 2013) - Ar gael yn Saesneg
Gwasanaeth Ymchwil Crynodeb o Fil: Bil Sector Amaethyddol (Cymru)

**9 Cynnig i gymeradwyo penderfyniad ariannol y Bil Sector Amaethyddol (Cymru) (5 munud)**

NDM5290 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Sector Amaethyddol (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69 sy'n codi o ganlyniad i'r

Bil.

**Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (15 munud)**

**10 Gorchymyn Deddf Tai ac Adfywio 2008 (Diwygiadau Canlyniadol i Ddeddf Cartrefi Symudol 1983 (Cymru) 2013**

NDM5287 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Deddf Tai ac Adfywio 2008 (Diwygiadau Canlyniadol i Ddeddf Cartrefi Symudol 1983) (Cymru) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mehefin 2013.

Dogfennau Ategol
Gorchymyn Deddf Tai ac Adfywio 2008 (Diwygiadau Canlyniadol i Ddeddf Cartrefi Symudol 1983) (Cymru) 2013
Memorandwm Esboniadol

**11 Gorchymyn Deddf Cartrefi Symudol 1983 (Diwygiad i Atodlen 1 a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2013**

NDM5286 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Deddf Cartrefi Symudol 1983 (Diwygio Atodlen 1 a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mehefin 2013.

Dogfennau Ategol
Gorchymyn Deddf Cartrefi Symudol 1983 (Diwygio Atodlen 1 a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2013
Memorandwm Esboniadol

**12 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gofal - gohiriwyd (15 munud)**

**NDM5247 Gwenda Thomas (Castell-nedd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Gofal, sy'n ymwneud â threfniadau cyfatebol y DU ar gyfer lleoli oedolion ar draws ffiniau, trefniadau i sicrhau parhad yn y gofal i oedolion yn achos methiant gan y darparwr ac i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gydweithredu â'r Awdurdod Ymchwil Iechyd, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Dogfennau Ategol**
Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mai 2013 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i).

I weld copi o'r Bil ewch i:
Bil Gofal 2013 (Saesneg yn unig)

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Gofal

**13 Dadl: Y GIG yng Nghymru - Dysgu o Ymchwiliad Francis (60 munud)**

**NDM5288 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd mewn ymateb i Adroddiad Francis.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn**:

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod data ar farwolaethau wedi cyfrannu at y penderfyniad i gomisiynu Adroddiad Francis, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gamau a gymerir i ddatrys pryderon a gododd yn sgîl data marwolaethau GIG Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2013.

Gellir gweld data marwolaethau GIG Cymru drwy fynd i:

http://cymru.gov.uk/topics/health/publications/health/guidance/mortality/?skip=1&lang=cy

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi gyda phryder bod y mynegai marwolaethau wedi'i addasu yn ôl risg yn uwch na'r cyfartaledd mewn 11 o'r 17 o ysbytai cyffredinol dosbarth yng Nghymru, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynorthwyo Byrddau Iechyd Lleol i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o ran codio clinigol ac i sefydlu dull o ymchwilio pan fydd ysbyty neu Fwrdd Iechyd Lleol yn croesi trothwy penodol ar gyfer y mynegai marwolaethau wedi'i addasu yn ôl risg yn gyson dros gyfnod.

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi gyda phryder bod Adroddiad Francis yn nodi lefelau staffio isel hirdymor fel un rheswm a gyfrannodd at driniaeth wael, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried potensial deddfwriaeth i osod lefel staffio sylfaenol ar gyfer nyrsys yng Nghymru.

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r ymrwymiad i gyhoeddi polisi newydd ar chwythu'r chwiban cyn diwedd mis Gorffennaf 2013, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu ei llinell gymorth ddi-dâl ei hun ar gyfer chwythu'r chwiban er mwyn ategu'r polisi hwn a galluogi holl staff a chleifion y GIG i roi gwybod am eu pryderon yn ddienw.

**Dogfennau Ategol**
Mae modd gweld Adroddiad Francis drwy'r ddolen ganlynol:
http://www.midstaffspublicinquiry.com/report

E-bostiwyd ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Francis at Aelodau'r Cynulliad ar 2 Gorffennaf.

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 10 Gorffennaf 2013

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 4 Gorffennaf 2013 i'w hateb ar 9 Gorffennaf 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff y Prif Weinidog dynnu sylw at y prif wersi sydd wedi cael eu dysgu yn sgîl adolygiadau o bolisi'r 1980au ar ardaloedd menter wrth sefydlu'r gyfres newydd o ardaloedd menter Cymru? OAQ(4)1172(FM)

2. Peter Black (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am allu pobl sy'n ceisio prynu eu cartref cyntaf i wneud hynny? OAQ(4)1170(FM)

3. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau ambiwlans ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)1185(FM)

4. Alun Ffred Jones (Arfon): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau cynllunio ynghylch yr iaith Gymraeg? OAQ(4)1173(FM)W

5. Mark Isherwood (Gogledd Cymru): Pa gysylltiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gael â'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu? OAQ(4)1174(FM)

6. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo defnyddio Banc y Gymdeithas Fawr gymaint â phosibl ymysg cyrff anllywodraethol yng Nghymru? OAQ(4)1171(FM)

7. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa drafodaethau sydd wedi'u cynnal rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch y cynigion i breifateiddio'r Post Brenhinol? OAQ(4)1187(FM)

8. Julie James (Gorllewin Abertawe): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella amodau gwaith ar gyfer gweithwyr gofal yng Nghymru? OAQ(4)1186(FM)

**9. Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer gofal iechyd sylfaenol? OAQ(4)1181(FM)

**10. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru)**: Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn ystod 2013 i fynd i'r afael â gordewdra plant yng Nghymru?  OAQ(4)1179(FM)

**11. Eluned Parrott (Canol De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gost meddyginiaethau i'r GIG? OAQ(4)1184(FM)

**12. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**: Pa drafodaethau a gaiff y Prif Weinidog â Gweinidogion newydd ynghylch cyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru? OAQ(4)1183(FM)

**13. Janet Finch-Saunders (Aberconwy)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gymryd rhan mewn chwaraeon a hamdden gan gymunedau Du a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru? OAQ(4)1178(FM)

**14. Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i gefnogi'r diwydiant twristiaeth yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)1169(FM)

**15. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol Ysbyty Gellinudd yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)1175(FM)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dydd Mawrth 16 Gorffennaf a dydd Mercher 17 Gorffennaf 2013

Toriad: Dydd Llun 22 Gorffennaf 2013 - Dydd Sul 22 Medi 2013

Dydd Mawrth 24 Medi a dydd Mercher 25 Medi 2013

Dydd Mawrth 1 Hydref a dydd Mercher 2 Hydref 2013

************************************************************************

Dydd Mawrth 16 Gorffennaf 2013

Bydd y Cyfarfod Llawn yn dechrau pan ddaw Pwyllgor y Cynulliad Cyfan i ben

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Prif Weinidog: Y Rhaglen Ddeddfwriaethol (90 munud)
- Rheoliadau Credyd Cynhwysol (Darpariaethau Canlyniadol) (Gofal Plant, Tai a Thrafnidiaeth) (Cymru) 2013 (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol (15 munud)
- Dadl: Y Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2013-14 (30 munud)

Dydd Mercher 17 Gorffennaf 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar yr Ymchwiliad i Ddeddfu a'r Eglwys yng Nghymru (60 munud)

- Cynnig i gymeradwyo Cynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

**Busnes y Llywodraeth**

- Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Sector Amaethyddol (Cymru) o dan Reol Sefydlog 26.44 (60 munud)
  *Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.*
  *Ar ddiwedd Cyfnod 3 caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47. Os derbynnir y cynnig:*
  *Cynnig Cyfnod 4 i gymeradwyo Bil Sector Amaethyddol (Cymru) o dan Reol Sefydlog 26.47 (5 munud)*

Dydd Mawrth 24 Medi 2013

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona mewn perthynas ag adfer perchnogaeth o dai annedd (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona mewn perthynas â gwaharddebau i atal niwsans ac atal tarfu ar bersonau, gorchmynion ymddygiad troseddol a'r trothwy cymunedol (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona mewn perthynas â'r Fframwaith rheolaethau ariannol cyfalaf yn Rhan 1 Deddf Llywodraeth Leol 2003 i Brif Gwnstabliaid yng Nghymru (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona mewn perthynas â chyflwyno Hysbysiadau Amddiffyn Cymunedol, Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus, Hysbysiadau Cau a diwygiadau i Ddeddf Cŵn Peryglus 1991 (15 munud)

- Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru) (60 munud)
- Penderfyniad Ariannol mewn perthynas â'r Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru) (5 munud)

Dydd Mercher 25 Medi 2013

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Amser a neilltuwyd i Geidwadwyr Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)

Dydd Mawrth 1 Hydref 2013

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cyflwyno Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) (60 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Eiddo Deallusol (15 munud)
- Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Teithio Llesol (Cymru) (90 munud)
  *Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.*
  *Ar ddiwedd Cyfnod 3 caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47. Os derbynnir y cynnig:*
  *Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo Bil Teithio Llesol (Cymru) (5 munud)*

**Dydd Mercher 2 Hydref 2013**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Amser a neilltuwyd i Geidwadwyr Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)